



Y Cyfnod Sylfaen: Amser Cofrestru

Geirfa Vocabulary

	absennol	absent
	brechdanau	sandwiches
	cinio	dinner
	cyfrif	to count
	ffrindiau	friends
	pen-blwydd	birthday
	yma	here
	yn barod	ready
	yn dost / yn sâl	ill

Gorchmynion	Commands
Atebwch	Answer
Cyfrwch	Count
Dewch	Come
Eisteddwch	Sit

Paratoi

Dewch i eistedd ar y mat.
Eisteddwch ar y mat.
Eisteddwch mewn cylch.
Pawb yn barod?
Bore da, blant.
Bore da, ffrindiau.

Preparation

Come and sit on the mat.
Sit on the mat.
Sit in a circle.
Everyone ready?
Good morning children.
Good morning friends.

Iaith cofrestru

Ble mae Cadi?
Dyma fi.

Ble mae Hannah?
Mae Hannah'n absennol.
Ydy Hannah'n dost / sâl? Ydy / Nac ydy

Ydy Ben yma? Ydy / Nac ydy
Ydy Macs yn absennol? Ydy / Nac ydy

Pwy sy'n cael cinio?
Pwy sy'n cael brechdanau?

Faint sy'n cael cinio?
Cyfrwch gyda fi / efo fi.
Un, dau, tri ... Mae deg yn cael cinio.

Registration language

Where is Cadi?
Here I am.

Where is Hannah?
Hannah is absent.
Is Hannah ill? Yes / No

Is Ben here? Yes / No
Is Macs absent? Yes / No

Who's having dinner?
Who's having sandwiches?

How many are having dinner?
Count with me.
One, two, three... Ten are having dinner.

Are you having dinner today Mair?
Yes / No

Who's having a birthday today? Me.

(We) must sing 'Pen-blwydd hapus'.

How old are you today?
I'm six (years old) today.

Dwylo i fyny (NW) Hands up
Dwylo lan (SW) Hands up
Dyna drueni. That's a pity.
Faint ydy oed...? How old is ...?

Oed Age
tair oed three (years old)
pedair oed four (years old)
pump oed five (years old)
chwech oed six (years old)
saith oed seven (years old)

Y Cyfnod Sylfaen: Amser Cofrestru ✓

Sgwrs 1

Oedolyn Prynhawn da, blant.
Plant Prynhawn da, Miss. Bore da, ffrindiau.
Oedolyn Wayne?
Wayne Yma.
Oedolyn Osian? Ydy Osian yn absennol?
Plant Nac ydy.
Oedolyn Ble mae Osian?
Osian Dyma fi!

Sgwrs 2 (fersiwn y gogledd)

Oedolyn Amser cofrestru. Dewch i eistedd ar y mat.
Bore da, blant.
Plant Bore da, Miss. Bore da, ffrindiau.
Oedolyn Pwy sy'n cael cinio heddiw? Dwylo i fyny. Rŵan, cyfrwch efo fi.
Jac Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith.
Oedolyn Saith. Mae saith yn cael cinio heddiw.
Faint sy'n cael brechdanau? Dwylo i fyny. Cyfrwch efo fi eto.
Plant Un, dau, tri, pedwar, pump.
Oedolyn Pump. Da iawn. Mae pump yn cael brechdanau heddiw.

Bore da, ffrindiau

(Tôn: Skip to my Loo)
Bore da, ffrindiau, sut ydych chi?
Bore da, ffrindiau, sut ydych chi?
Bore da, ffrindiau, sut ydych chi?
Rydyn ni'n dda iawn, diolch.

Dewch i eistedd ar y mat - (Tôn: London Bridge is falling down)

Dewch i eistedd ar y mat,
Ar y mat, ar y mat,
Dewch i eistedd ar y mat
I ddweud ' Bore da.'

Dewch i eistedd ar y mat,
Ar y mat, ar y mat,
Dewch i eistedd ar y mat
I ddweud ' Prynhawn da.'

Sgwrs 2 (fersiwn y de)

Oedolyn Amser cofrestru. Dewch i eistedd ar y mat.
Bore da, blant.
Plant Bore da, Miss. Bore da, ffrindiau.
Oedolyn Pwy sy'n cael cinio heddiw? Dwylo lan. Nawr, cyfrwch 'da fi.
Jac Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith.
Oedolyn Saith. Mae saith yn cael cinio heddiw.
Faint sy'n cael brechdanau. Dwylo lan. Cyfrwch 'da fi eto.
Plant Un, dau, tri, pedwar, pump.
Oedolyn Pump. Da iawn. Mae pump yn cael brechdanau heddiw.

Sgwrs 3

Oedolyn Amser cofrestru. Eisteddwch mewn cylch ar y mat. Ydy pawb yn barod?
Plant Yn barod.
Oedolyn Gwyn?
Gwyn Yma, Miss.
Oedolyn Ann?
Ann Yma, Miss.
Oedolyn Abi?
Plant Absennol, Miss.
Oedolyn Ydy Abi'n sâl?
Plant Ydy, Miss.
Oedolyn Dyna drueni. Ewan?
Ewan Yma, Miss.
Oedolyn Pwy sy'n cael pen-blwydd heddiw?
Plant Ewan.
Oedolyn Ie, Ewan. Faint ydy dy oed di Ewan?
Ewan Pedair.
Oedolyn Rhaid canu pen-blwydd hapus i Ewan. Pawb yn barod?
Pawb Pen-blwydd hapus i ti, Pen-blwydd hapus i ti,
Pen-blwydd hapus i Ewan, Pen-blwydd hapus i ti.

Pen-blwydd hapus

Pen-blwydd hapus i ti,
Pen-blwydd hapus i ti,
Pen-blwydd hapus i Catrin,
Pen-blwydd hapus i ti.